ADRAN YSTADAU
STRATEGOL

# Cyfle i Brydlesu Caffi'r Morglawdd

# Manylion Eiddo





## Rhaid i bob cynnig ddod i law erbyn ddydd Gwener 2 Gorffennaf 2021

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

## ADRAN YSTADAU STRATEGOL


# Lleoliadau

### Caffi'r Morglawdd






### Safle B (Opsiynol)





# ADRAN YSTADAU STRATEGOL

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD

**Cyflwyniad**

Hoffai Adran Ystadau Strategol Cyngor Caerdydd wahodd gweithredwyr sydd â diddordeb i dendro am y cyfle i fasnachu yng Nghaffi'r Morglawdd, yn ogystal â safle ychwanegol opsiynol (Safle B) ar y morglawdd.

**Cefndir**

Agorodd Caffi'r Morglawdd ym mis Ebrill 2018. Mae Morglawdd Bae Caerdydd yn llwybr cerdded, beicio a rhedeg poblogaidd i drigolion Caerdydd a Phenarth, yn ogystal â thwristiaid. Mae llawer o bobl yn mynd yno yn ystod yr haf ac fe'i defnyddir yn rheolaidd yn ystod misoedd y gaeaf hefyd.

**Lleoliad**

Mae lleoliadau safleoedd y cynnig hwn eisoes wedi'u nodi fel y dangosir ar y tudalennau nesaf.

**Cyfleustodau**

Mae gan y caffi wasanaethau trydan, dŵr a thelathrebu, fodd bynnag, nid oes unrhyw wasanaethau sefydlog yn Safle B.

**Ffigurau Defnyddio'r Safle**

Anogir partïon â diddordeb i dreulio amser yn y lleoliadau masnachu er mwyn asesu nifer yr ymwelwyr a nodi oriau brig, fodd bynnag, nodir nifer yr ymwelwyr yn y Pecyn Gwybodaeth am Gaffi'r Morglawdd.

**Masnachu**

Rhaid i'r tenant fod ar gael i fasnachu o'r safle o fewn oriau golau dydd arferol, o ddydd Llun i ddydd Sul. Gall y tenant gadw'r safle ar gau am hyd at bum diwrnod trwy gydol y flwyddyn dan gontract am unrhyw reswm, heb gael cosb.

Fodd bynnag, os bydd y Gweithredwr yn methu â masnachu ar fwy na 5 diwrnod, oni bai bod Awdurdod Harbwr Caerdydd wedi cytuno'n ysgrifenedig i hynny ymlaen llaw, bydd yn torri amodau'r brydles a gall y Cyngor arfer cymal terfynu.

# ADRAN YSTADAU STRATEGOL

**Lluniau mewnol o'r eiddo:**









# ADRAN YSTADAU STRATEGOL

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD

**Telerau Masnachol Allweddol Arfaethedig**

| | |
|---|---|
| **Tymor** | Prydles 5 mlynedd o hyd o leiaf (prydles yswirio ac atgyweirio lawn) |
| **Y Safle** | Caffi'r Morglawdd (safle symudol opsiynol) |
| **Rhent** | Ffigur canllaw – £20k a TAW.<br>I'w benderfynu gan gyflwyniadau tendr. |
| **Yswiriant** | Y tenant fydd yn gyfrifol am gael yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol. |
| **Sbwriel** | Y tenant fydd yn gyfrifol am glirio sbwriel yn yr ardal a ddangosir yn Atodiad 4 y "Pecyn Gwybodaeth am Gaffi'r Morglawdd" |
| **Hawliau Masnachu** | Bydd gan y trwyddedai'r unig hawliau masnachu dros y safleoedd masnachu. |
| **Diogelwch Bwyd** | Rhaid i'r gweithredwr allu cyflawni a chynnal sgôr Asiantaeth Safonau Bwyd sydd o leiaf 3/5 |
| **Safleoedd** | Cymerir y safleoedd fel ag y maent, gydag unrhyw waith posibl i'w gynnal gan y tenant. Mae'r holl waith yn amodol ar gymeradwyaeth ymlaen llaw gan Gyngor Caerdydd. |
| **Gwastraff** | Caiff gwastraff ei waredu mewn ardaloedd gwastraff masnachol y cytunir arnynt ymlaen llaw ac nid ei roi mewn biniau sbwriel cyhoeddus. |
| **Alcohol** | Ni chaniateir masnachu alcohol a thybaco heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Cyngor a heb gael y trwyddedau perthnasol. |
| **Ardrethi** | £11,500 y flwyddyn |
| **Tystysgrif Perfformiad Ynni** | B - 49 |
| **Costau** | Bydd y gweithredwr llwyddiannus yn gwneud cyfraniad at ffioedd syrfewyr rhesymol y Cyngor sy'n dod i gyfanswm o £550 a ffioedd cyfreithiol i'w cadarnhau. |
| **Arall** | Bydd y drwydded yn destun unrhyw delerau ac amodau eraill y mae Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol y Cyngor yn ystyried eu bod yn briodol. |
| **Pecyn Gwybodaeth am Gaffi'r Morglawdd** | Mae'r Pecyn Gwybodaeth am Gaffi'r Morglawdd yn cynnwys mwy o wybodaeth am delerau a rhwymedigaethau arfaethedig y brydles. |

Telerau'r brydles i'w cytuno drwy'r benawdau'r telerau gyda'r gweithredwr llwyddiannus.
**Os ydych yn dymuno tendro am y cyfle, rhaid dychwelyd y tendr yn y fformat a nodir yn y "Pecyn Cais ar gyfer Caffi'r Morglawdd"**

**Cysylltu:**
David Jones (Syrfëwr Graddedig)
Ffôn: 02920 871977
E-bost: david.jones6@caerdydd.gov.uk

# ADRAN YSTADAU STRATEGOL

Os yw'r Cynigydd yn "gorff" neu'n sefydliad corfforedig, dylai ysgrifennydd y cwmni neu'r cyfarwyddwr awdurdodedig "neu ymddiriedolwr" lofnodi. Yn achos partneriaeth dylai partner lofnodi. Yn achos unigolyn, y perchennog ddylai lofnodi.

**Ni ddylid datod y ffurflen cynnig hwn a dylid dychwelyd y ddogfen gyfan trwy ddosbarthiad cofnodedig mewn amlen wedi'i selio i:**

**Giles Parker**
**Pennaeth Eiddo**
**Ystadau Strategol**
**D/O EJ Hales**
**28 Plas Windsor**
**Caerdydd**
**CF10 3SG**

**Rhaid i bob cynnig ddod i law erbyn ddydd Gwener 2 Gorffennaf 2021**

Os oes angen y ddogfen hon arnoch yn Saesneg, anfonwch e-bost i gwybodaetheiddo@caerdydd.gov.uk

Mae croeso i chi hefyd fynd i wefan Ystadau Strategol yn www.cardiffcouncilproperty.com

*Ymwadiad:*

*1. Rhoddir y wybodaeth uchod a'r wybodaeth yn y ddogfen hon yn amlinelliad cyffredinol yn unig er arweiniad i bartïon â diddordeb ac nid yw'n rhan o gynnig neu gontract.*

*2. Rhoddir yr holl ddisgrifiadau, dimensiynau, cynlluniau, cyfeiriadau at amodau a chaniatâd angenrheidiol ar gyfer defnydd a meddiannaeth a manylion eraill heb gyfrifoldeb ac ni ddylai unrhyw bartïon â diddordeb ddibynnu arnynt fel ffeithiau ond dylent fodloni eu hunain trwy archwilio neu fel arall gywirdeb pob un ohonynt.*

*3. Nid oes gan unrhyw berson a gyflogir gan Gyngor Caerdydd awdurdod i wneud neu roi unrhyw sylwadau neu warant o gwbl mewn perthynas â'r eiddo/tir hwn.*

*4. Ceidw'r Cyngor yr hawl i beidio â derbyn unrhyw gynnig a gaiff.*